


Emynau a Darlleniadau



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

Y Chweched Sul wedi'r Drindod | Sul y Môr • 12 Gorffennaf 2026

Gosodiad

Offeren Glyn Rhosyn, Meirion Wynn Jones

Llywydd

Pregethwr

Canon Tracy

Canon Angela

Emyn Agoriadol

Atolygwn iti, Arglwydd,
roi dy ras bob awr o'n hoes
i'n rhagflaenu ac i'n dilyn
yn ein hymdaith dan y Groes;
fel y gallom rodio'n addas
yn ein galwedigaeth fawr,
mewn sancteiddrwydd, hirymaros,
ac addfwynder ar y llawr.

Meithrin undeb bôm mewn cariad,
un yw popeth yn dy drefn,
un yw'r corff, ac un yw'r ysbryd,
un yw'r gobaith teg drachefn;
un yw'r ffydd, ac un yw'r bedydd,
un ein Harglwydd, un ein Tad;
felly'r undeb gâr dy Ysbryd
gaffo'n wastad ein mawrhad.

Arwain ni i lwyr ymroddi
i bob gweithred fyddo dda :
ac fel gallom eu cyflawni
dy lân Ysbryd caniatâ;
Gwisga ni âgostyngeddwrwydd
i fwynhau dy rasol heddi,
a thrwy isel ffordd dyletswydd
dyrcha ni i'th nefol wledd.

Geiriau

Gwynedd (Thomas Edwards, 1844-1924)

Cerddoriaeth | "Ebeneser"

Thomas John Williams (1869-1944)

Gloria in excelsis Deo

Cân ogoniant i'r goruchaf,
datgan heddi i blant y llawr.
Arglwydd Dduw, ein Brenin nefol,
hollalluog Arglwydd Iôr!
Ti fendithiwn, ti addolwn,
gogoneddwn, molwn di:
cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Crist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Arglwydd Dduw, y dwyfol Oen;
ti sy'n dwyn ein holl bechodau,
dy drugaredd rhoi ni.
Gorseddedig ar ddeuheulaw'r
Hollalluog, clyw ein cân,
cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Ti yn unig sydd yn sanctaidd,
ti yn unig yw yr Iôr,
ti yn unig sy'n oruchaf,
Iesu Grist, ein Harglwydd Dduw.
Gyda'r Ysbryd ti wyt Un,
yng nghogoniant y Duw Dad,
cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Geiriau | Words

Gillian Williams

Cerddoriaeth | Music | "Blaenwern"

William Penfro Rowlands (1860-1937)

Colect

Duw trugarog, darperaist i'r rhai sy'n dy garu
y fath bethau daionus sydd uwchlaw ein deall:
tywallt yn ein calonnau'r fath gariad tuag
atat, fel y bo i ni, sy'n dy garu uwchlaw pob dim, allu
derbyn dy addewidion, sy'n fwy rhagorol na dim y
gallwn ni ei ddeisyfu; trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd
Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Salm 65:9-13



V Coroni'r wyt y flwyddyn gron
â'th hael fendithion beunydd.

R Coroni'r wyt y flwyddyn gron
â'th hael fendithion beunydd.

Rwyt yn gofalu am y ddaear ac yn ei dyfrhau,
gwnaethost hi'n doreithiog iawn; y mae afon Duw'n
llawn o ddŵr; darperaist iddynt yd. Fel hyn yr wyt yn
trefnu ar ei chyfer: **R**

Dyfrhau ei rhychau, gwastatáu ei chefnau, ei mwydo
â chawodydd a bendithio'i chnwd. Yr wyt yn coroni'r
flwyddyn â'th ddaioni, ac y mae dy lwybrau'n diferu
gan fraster. **R**

Y mae porfeydd yr anialdir yn diferu, a'r brynau wedi
eu gwregysu â llawenydd; y mae'r dolydd wedi eu
gwisgo â defaid, a'r dyffrynnoedd wedi eu gorchuddio
ag yd. Y maent yn bloeddio ac yn gorfoleddu. **R**

Cerddoriaeth

Maurice Greene (1695-1755); tr. Sam Jones

Rhufeiniaid 8:1-11

Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist
Iesu dan gollfarn o unrhyw fath. Oherwydd
yng Nghrist Iesu y mae cyfraith yr Ysbryd,
sy'n rhoi bywyd, wedi dy ryddhau o afael cyfraith
pechod a marwolaeth. Yr hyn oedd y tu hwnt i allu'r
Gyfraith, yn ei gwendid dan gyfyngiadau'r cnawd, y
mae Duw wedi ei gyflawni. Wrth anfon ei Fab ei hun,

mewn ffurf debyg i'n cawd pechadurus ni, i ddelio â phechod, y mae wedi collfarnu pechod yn y cawd. Gwnaeth hyn er mwyn i ofynion cyfiawn y Gyfraith gael eu cyflawni ynom ni, sy'n byw, nid ar wastad y cawd, ond ar wastad yr Ysbryd. Oherwydd y sawl sydd â'u bodolaeth ar wastad y cawd, ar bethau'r cawd y mae eu bryd; ond y sawl sydd ar wastad yr Ysbryd, ar bethau'r Ysbryd y mae eu bryd. Yn wir, y mae bod â'n bryd ar y cawd yn farwolaeth, ond y mae bod â'n bryd ar yr Ysbryd yn fywyd a heddwch. Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hynny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw. Ni all y sawl sy'n byw ym myd y cawd foddhau Duw. Ond nid ym myd y cawd yr ydych chiwi, ond yn yr Ysbryd, gan fod Ysbryd Duw yn cartrefu ynoch chiwi. Pwy bynnag sydd heb Ysbryd Crist, nid eiddo Crist ydyw. Ond os yw Crist ynoch chiwi, y mae'r corff yn farw o achos pechod, ond y mae'r Ysbryd yn fywyd ichwi o achos eich cyfiawnhad. Os yw Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu oddi wrth y meirw yn cartrefu ynoch, bydd yr hwn a gyfododd Grist oddi wrth y meirw yn rhoi bywyd newydd hefyd i'ch cyrff marwol chiwi, trwy ei Ysbryd, sy'n ymgartrefu ynoch chiwi.

Mathew 13:1-9, 18-23

Aeth Iesu allan o'r tŷ ac eisteddodd ar lan y môr. Daeth tyrfaeodd mawr ynghyd ato, nes iddo fynd ac eistedd mewn cwch, ac yr oedd yr holl dyrfa yn sefyll ar y lan. Fe lefarodd lawer wrthynt ar ddamhegion, gan ddweud: "Aeth heuwr allan i hau. Ac wrth iddo hau, syrthiodd peth had ar hyd y llwybr, a daeth yr adar a'i fwyta. Syrthiodd peth arall ar leoedd creigiog, lle ni chafodd fawr o bridd, a thyfodd yn gyflym am nad oedd iddo ddyfnder daear. Ond wedi i'r haul godi fe'i llosgwyd, ac am nad oedd iddo wreiddyn fe wywodd. Syrthiodd hadau eraill ymhlith y drain, a thyfodd y drain a'u tagu. A syrthiodd eraill ar dir da a ffrwytho, peth ganwaith cymaint, a pheth drigain, a pheth ddeg ar hugain. Y sawl sydd â chlustiau ganddo, gwrandawed. Gwrandewch chwithau felly ar ddameg yr heuwr. Pan fydd unrhyw un yn clywed gair y deyrnas heb ei ddeall, daw'r Un drwg a chipio'r hyn a heuwyd yn ei galon. Dyma'r un sy'n derbyn yr had ar hyd y llwybr. A'r un sy'n derbyn yr had ar leoedd creigiog, dyma'r un sy'n clywed y gair ac yn ei dderbyn ar ei union yn llawen. Ond nid oes ganddo wreiddyn ynddo'i hunan, a thros dro y mae'n para; pan ddaw gorthrymder neu erlid o achos y gair, fe gwmp ar unwaith. Yr un sy'n derbyn yr had ymhlith y drain, dyma'r un sy'n clywed y gair, ond y mae gofal y byd hwn a hudoliaeth golud yn tagu'r gair, ac y mae'n mynd yn ddiffrwyth. A'r un sy'n derbyn yr had ar dir da, dyma'r un sy'n clywed y gair ac yn ei ddeall, ac yn dwyn ffrwyth ac yn rhoi peth ganwaith cymaint, a pheth drigain, a pheth ddeg ar hugain."

Emyn yr Offrwm



Atgynhyrchir deunydd yma o dan CLL 280874.
Material here is reproduced under the CLL 280874.

Tyrdd atom ni, O Grëwr pob goleuni,
tro di ein nos yn ddydd;
pâr inni weld
holl lwybrau'r daith yn gloywi
dan lewyrch gras a ffydd.

Tyrdd atom ni, O Luniwr pob rhyw harddwch,
rho inni'r doniau glân;
tyn ni yn ôl i afael dy hyfrydwch
lle mae'r dragwyddol gân.

Tyrdd atom ni, Arweinydd pererinion,
dwg ni i ffordd llesâd;
tydi dy hun sy'n tywys drwy'r treialon,
O derbyn ein mawrhad.

Tyrdd atom ni, O Dad ein Harglwydd
Iesu, i'n harwain ato ef;
canmolwn fyth yr hwn sydd yn gwaredu,
bendigaid Fab y nef.

Geiriau

William Rhys Nicholas (1914-1996)

Cerddoriaeth | "Berwyn"

Caradog Roberts (1878-1935)

Emyn Ôl-Gymun



Cofir mwy am Fethlem Jwda,
testun cân pechadur yw;
cofir am y preseb hwnnw
fu'n hyfrydwch cariad Duw:
dwed o hyd pa mor ddrud
iddo ef oedd cadw'r byd.

Cofir mwy am Gethsemane
lle'r ymdrechodd Mab y Dyn;
cofir am y weddi ddyfal
a weddiodd wrtho'i hun:
dwed o hyd pa mor ddrud
iddo ef oedd cadw'r byd.

Cofir am y croesbren garw
lle y cuddiwyd wŷneb Duw,
lle gorffennodd Iesu farw,
lle dechreuais innau fyw;
dwed o hyd pa mor ddrud
iddo ef oedd cadw'r byd.

Melys dreulir tragwyddoldeb
maith, yng ngolwg Calfarî;
Iesu Grist, ei Groes, a'i breseb
fydd yn nefoedd byth i ni:
canu 'nghyd, pa mor ddrud
iddo ef oedd cadw'r byd!

Geiriau

Eifion Wyn (Eliseus Williams, 1867-1926)

Cerddoriaeth | "Llanbadarn"

Richard Samuel Hughes (1855-1893)